

Taflen Ffeithiau Llinell Faethu Cymru Gofalwyr Maeth sy'n Bobl Lesbaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol (LGBT)

Rhagymadrodd

Mae 'LGBT' yn cwmpasu llawer mwy na dim ond yr hunaniaethau lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol a awgrymir gan LGBT, ac mae'n cynnwys ystod eang o hunaniaethau rhywiol a rhywedd. Ceir mwy o wybodaeth yn stonewall.org.uk.

Dylai amrywiaeth rhywedd a rhywioldeb fod yn rhan a dderbynnir o fywyd beunyddiol, ac mewn llawer ffordd, y peth gorau yw osgoi rhoi gormod o amlygrwydd iddynt o fewn maethu. Fodd bynnag, yn anffodus, mae yna o hyd chwedlau, rhagfarn a chamwahaniaethu yng Nghymru, ac fe all hyn effeithio ar waith gofalwyr maeth LGBT. Golyga hyn fod angen taflen ffeithiau i helpu i ddiogelu rhag camwahaniaethu, i wneud pobl yn ymwybodol o'u hawliau ac i awgrymu adnoddau i bawb sy'n gysylltiedig â gofal maeth sydd eisiau mwy o wybodaeth, cymorth neu gyngor ynglŷn â gofalwyr maeth LGBT.

Amrywiaeth – allaf i faethu?

Mae'n hynod bwysig bod yna ystod eang o ofalwyr maeth ar gael sydd â gwahanol sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau bywyd. Mae rhai pobl yn dal i gredu'r chwedl honno na all unigolion neu gyplau LGBT faethu. Mae yna newidiadau wedi bod i'r gyfraith sy'n caniatáu i ofalwyr maeth a mabwysiadol mewn cwpwl LGBT ymddangos fel gwarcheidwaid cyfreithiol ar waith papur mabwysiadu a maethu. Arweiniodd y newid hwn at gynnydd mewn gofalwyr maeth LGBT. Mae pob asiantaeth faethu wedi'i hymrwymo i driniaeth gyfartal i bob darpar gofalwr maeth ac fe ddylent groesawu ceisiadau'n gadarnhaol. Nid yw'ch cyfeiriadedd rhywiol yn bwysig wrth bennu'ch gallu i ddarparu cartref diogel a gofalgwr i blentyn wedi'i faethu.

Mae llawer o ofalwyr maeth LGBT wedi dysgu gwytnwch yn wyneb agweddau cymdeithasol sydd yn aml yn camwahaniaethu. Gall hyn eu gwneud nhw'n ddelfrydau ymddwyn da pan fo plant sy'n derbyn gofal yn profi camwahaniaethu ac yn amau'u hunaniaeth.

I ganfod mwy o wybodaeth, ewch i thefosteringnetwork.org.uk/advice-information/could-you-foster

Eich Hawliau:

Mae gennych hawl i amddiffyniad rhag camwahaniaethu ac aflonyddu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Golyga hyn:

- Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol asesu, hyfforddi, cefnogi a lleoli plant gyda chi yn deg, gan ddefnyddio'r un meini prawf ag ar gyfer ymgeiswyr a gofalwyr maeth nad ydynt yn LGBT.
- Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau nad yw gweithwyr proffesiynol eraill, teuluoedd plant wedi'u maethu, a phlant wedi'u maethu eu hunain yn camwahaniaethu yn eich erbyn chi nac yn aflonyddu arnoch oherwydd eich rhywedd neu'ch cyfeiriadedd rhywiol.

Paru lleoliadau

Cwmpasir paru lleoliadau gan Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015. Nid yw rhywioldeb yn ffactor perthnasol ar gyfer paru lleoliad, ond mae rhywedd. Efallai fod yna rai amgylchiadau lle mae hi'n fwy priodol i blentyn gael ei leoli gyda dim ond dynion neu ddim ond merched, ac amgylchiadau eraill lle mae cwpwl rhywedd cymysg yn fwy priodol.

Wrth lunio cynllun lleoli, fe ddylid rhoi ystyriaeth i farn, dymuniadau a theimladau'r plentyn. Efallai y bydd hi'n briodol trafod rhywedd posibl y gofalwr maeth fel rhan o hyn.

Cynghorion oddi wrth ofalwyr maeth LGBT eraill

- Peidiwch â synnu os dowch ar draws rhywfaint o ragfarn neu gamwahaniaethu. Mae'r byd maethu'n drawstoriad o gymdeithas Cymru, ac felly mae'n adlewyrchu'r sbectrwm o agweddau ac ymddygiad – y mae rhai ohonynt yn negyddol ac yn gamwahaniaethol tuag at bobl LGBT. Nid yw hyn yn golygu y dylech ei dderbyn na'i anwybyddu. Mae yna ddyletswydd ar eich asiantaeth faethu i'ch diogelu rhag camwahaniaethu, ac fe allant ond gwneud hyn os ydynt yn ymwybodol o unrhyw broblemau a wynebwnch.
- Byddwch yn hyderus. Dangosodd arolwg Cymdeithasol y Teulu Newydd yn 2011 fod 76 y cant o weithwyr cymdeithasol yn credu bod agwedd agored gofalwyr maeth LGBT i wahaniaeth yn nerth sylweddol.
- Gall unrhyw brofiadau yn ystod plentyndod o deimlo'n wahanol, ddim yn perthyn neu o gael eich gwrthod oherwydd rhan o'ch hunaniaeth eich helpu i ddangos empathi i blant sy'n derbyn gofal a'i gwneud hi'n haws iddynt eich credu pan ydych yn eu hannog i fod yn hyderus ac yn gadarn.
- Mae rhai awdurdodau lleol ac asiantaethau o ddifri' wrth geisio recriwtio gofalwyr maeth LGBT, ond mae gan rai agweddau llai cadarnhaol. Chwiliwch am yr awdurdod lleol neu'r asiantaeth iawn i chi.
- Gall rhaglenni a llenyddiaeth hyfforddi ragdybio pethau am rywioldeb neu hunaniaeth rhywedd gofalwyr maeth. Mae'n fuddiol i bawb os gwnewch y mudiad yn ymwybodol o hyn, lle bynnag y dowch ar ei draws.
- Gall plant eraill ofyn i'r plentyn rydych yn ei faethu gwestiynau y gall y plentyn eu canfod yn anodd eu hateb, efallai siarad yn negyddol am rieni LGBT, neu

ddefnyddio iaith homoffobig. Gallwch helpu'r plentyn rydych yn ei faethu drwy wneud yn sicr bod ganddynt ffyrdd priodol o ymateb.

- Bod yn fodlon ateb cwestiynau a thrafod unrhyw bryderon am y lleoliad a fynegwyd gan deulu'r plentyn. Gellir datrys llawer o gwestiynau a phryderon gyda chyfathrebu da. Nid yw hyn yn golygu y dylech dderbyn cwestiynau amhriodol neu agweddau camwahaniaethol.

Rhagor o Adnoddau

I ddarllen:

Different Families: profiadau plant gyda rhieni lesbaidd a hoyw, Stonewall ac Education For All, 2010

stonewall.org.uk/sites/default/files/Different_Families_2010_.pdf

Ysgrifennodd CoramBAAF a New Family Social gyfres o lyfrynnau am faethu a mabwysiadu gan bobl LGBT ar gyfer rhieni biolegol, aelodau paneli, plant, gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr maeth.

corambaaf.org.uk/bookshop?keywords=&audience%5B%5D=29

I gysylltu:

Mae Stonewall yn ymgyrchu dros gydraddoldeb i bobl lesbaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol ledled Prydain. Maent yn darparu gwasanaeth gwybodaeth. Ffoniwch nhw ar 08000 50 20 20 neu anfonwch e-bost at info@stonewall.org.uk gyda'ch ymholiad.

stonewall.org.uk

New Family Social yw'r rhwydwaith Prydeinig ar gyfer teuluoedd maeth a mabwysiadol LGBT newfamilysocial.org.uk/

Mae [FFLAG](#) yn fudiad o rieni i ferched lesbaidd a meibion hoyw, sy'n ceisio hyrwyddo lles pobl lesbaidd, hoyw a deurywiol, eu teuluoedd a'u cyfeillion. Yn ychwanegol at linell gymorth gyfrinachol, mae FFLAG yn gweithio â mudiadau i roi cymorth i deuluoedd LGBT o bob cwr o'r byd.

Sut y gall Y Rhwydwaith Maethu helpu

Mae'r Rhwydwaith Maethu yn cynnig cyngor, gwybodaeth a chymorth. Mae ein harbenigedd a'n gwybodaeth yn wastad yn gyfoes ac ar gael drwy'n llinellau cymorth, cyhoeddiadau, hyfforddiant a gwasanaethau ymgynghori hanfodol i aelodau.

Cyngor

Llinell Faethu Cymru

Ffoniwch ni ar 0800 316 7664 o 9.30yb - 12.30yp rhwng dydd Llun a dydd Gwener. Os ydych yn ffonio y tu allan i'r amser hwn, gadewch neges, os gwelwch yn dda, ac fe wna rhywun eich ffonio yn ôl cyn gynted â phosibl.

Gallwch anfon e-bost atom neu ysgrifennu atom yn:

:

Fosterlinewales@fostering.net

Y Rhwydwaith Maethu

1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead

Bae Caerdydd CF10 4DQ.

Cymorth ac Adnoddau

Mae ein gwefan yn ffynhonnell hanfodol o wybodaeth, tra bod ein cymuned ar-lein yn dod â gofalwyr maeth ynghyd am gefnogaeth a chyngor gan gymheiriaid. Gallwch fewngofnodi i rannu'ch profiad a chael cyngor gan ofalwyr maeth eraill. Mae ein cymuned ar-lein yn fan diogel a sicr i drafod materion gofal maeth.

thefosteringnetwork.org.uk

I gael gwybodaeth ar y we am ofalwyr maeth LGBT:

thefosteringnetwork.org.uk/blogs/foster-care-fortnight/perceptions-preconceptions-and-reality-fostering-in-lgbt-community

Hyfforddiant a Gwasanaeth Ymgynghori

Lle bynnag rydych yn eich gyrfa faethu, fel gofalwr maeth, gweithiwr cymdeithasol neu reolwr, mae gan Y Rhwydwaith Maethu ystod o hyfforddiant wedi'i gynllunio i ddiwallu'ch anghenion datblygu.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'n rheolwr dysgu a datblygu, Sarah Mobedji, yn

sarah.mobedji@fostering.net.

Ynglŷn â'r Rhwydwaith Maethu

Y Rhwydwaith Maethu yw prif elusen faethu'r Deyrnas Unedig, sy'n dod â phawb ynghyd sy'n gysylltiedig â bywydau plant wedi'u maethu i wneud gofal maeth y gorau un y gall fod.

Cysylltwch â

I ganfod mwy o wybodaeth am ein gwaith yng Nghymru, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â:

Y Rhwydwaith Maethu

1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead

Bae Caerdydd CF10 4DQ.

Ffôn: 029 2044 0940

E-bost: wales@fostering.net

Gwefan: thefosteringnetwork.org.uk



/thefosteringnetwork



@fosteringnet

© Y Rhwydwaith Maethu 2017